Y CYNGOR PRYDEINIG

# ADRODDIAD AR YR IAITH GYMRAEG YN NHALAITH CHUBUT, YR ARIANNIN 1996

GAN
ROBERT OWEN JONES

AR RAN
Y SWYDDFA GYMREIG

CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| Rhagarweiniad: Cefndir ac Amcanion | | 1 |
| 1. | Gweinyddiaeth a Methodoleg yr Arolwg | 4 |
| 2. | Crynodeb o'r Prif Argymhellion | 5 |
| 3. | Defnydd Presennol o'r Gymraeg | 6 |
| 4. | Addysg Gymraeg | 12 |
| 4.1 | Cefndir | 12 |
| 4.2 | Datblygiad y Dosbarthiadau Cymraeg | 12 |
| 4.3 | Braslun o'r ddarpariaeth | 13 |
| 4.4 | Yr Athrawon | 14 |
| 4.5 | Y Sector Gwirfoddol | 17 |
| 4.6 | Y Sector Gwirfoddol Addysg Feithrin | 18 |
| 4.7 | Y Sector Addysg Swyddogol | 20 |
| 4.8 | Crynodeb o'r Ddarpariaeth | 20 |
| 5. | Agwedd Awdurdod Addysg Chubut | 22 |
| 6. | Sefydliadau a allai gefnogi addysg Gymraeg | 25 |
| 6.1 | Awdurdod Addysg | 25 |
| 6.2 | Y Brifysgol | 25 |
| 6.3 | Y Sector Gwirfoddol | 26 |
| 6.4 | Y Sector Breifat | 28 |
| 7. | Strategaeth ar gyfer cefnogaeth bellach: Argymhellion | 30 |
| 7.1 | Athrawon | 30 |
| 7.2 | Deunydd Dysgu | 32 |
| 7.3 | Defnyddiau ar gyfer yr Uned ôl-feithrin | 33 |
| 7.4 | Maes llafur gloywi iaith ac ymestyn iaith | 33 |
| 7.5 | Fframwaith asesu ac arholi | 33 |
| 7.6 | Hyfforddiant pellach: darpar-athrawon y Gymraeg | 33 |
| 7.7 | Symudoledd myfyrwyr | 34 |
| 7.8 | Y Dravod | 34 |
| 7.9 | Yr Eisteddfod | 35 |
| 7.10 | Cymdeithas Cymru/Ariannin | 36 |
| Atodiad I: | Dosbarthiadau Cymraeg | 37 |
| Atodiad II: | Holiadur byr | 40 |
| Atodiad III: | Sefydliadau ac Unigolion | 41 |


Final Version : 1 July 1996

## RHAGARWEINIAD: CEFNDIR AC AMCANION

Comisiynwyd yr Arolwg drwy'r Cyngor Prydeinig (Caerdydd) ar gyfer casglu gwybodaeth ynglyn â'r ddarpariaeth addysgol Gymraeg bresennol yn Chubut, yr Ariannin. Cyflawnwyd y gwaith maes yn ystod y cyfnod 25 Mawrth - 17 Ebrill 1996.

**Cefndir:**

Glaniodd y Cymry cyntaf ym Mhatagonia ar 28 Gorffennaf 1865 ac yn Nhalaith Chubut heddiw mae rhai o'r bedwaredd a'r bumed genhedlaeth sy'n dal i siarad y Gymraeg. Ni pharhaodd y Gymraeg cyhyd mewn unrhyw sefydliad na threfedigaeth arall a sefydlwyd gan Gymry. Bron ym mhob achos llwyddiant tymor byr a gafodd y Gymraeg tu allan i Gymru. Ym Mhatagonia daeth llwyddiant economaidd, materol, addysgol, diwylliannol a chymdeithasol ac am y deng mlynedd ar hugain cyntaf yn hanes y Wladfa, y Gymraeg oedd prif iaith pob agwedd ar fywyd y cymunedau.

Yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg cawsai plant y Wladfa eu haddysg yn gyfangwbl drwy gyfrwng y Gymraeg. Bodolai Ysgolion Cynradd Cymraeg yno o leiaf drigain mlynedd cyn i fframwaith gyffelyb weithredu yng Nghymru. O ddyddiau cyntaf y sefydliad dodwyd cryn bwyslais ar addysg ac erbyn 1877 'roedd Bwrdd Ysgol mewn grym i gadw golwg ar faes llafur yr ysgolion ac ar ansawdd y dysgu. Y flwyddyn ddilynol dechreuodd y llywodraeth ymyrryd yn addysg y Wladfa drwy anfon athro yno i sefydlu ysgol genedlaethol a fyddai'n dysgu drwy gyfrwng y Sbaeneg. Ni lwyddodd i wneud hynny, and dechreuwyd cyflwyno'r Sbaeneg fel pwnc yn yr ysgolion. Mae'n amheus a fu'r gwersi hynny'n llwyddiant diamheuol. Yng nghopi Nadolig 1883 o *Ein Breiniad* mynegwyd cryn bryder ynglyn â cheisio dysgu'r plant drwy'r Sbaeneg:

`Nid drulio a mynych adrodd rhes o eiriau hollol annealladwy i'r

> plant yw addysg. Yn wir tuedd y fath arferiad yw suo rhieni a phlant fod dynwarediad yn ddysgu, tra y mae holl amgyffrediad y plant yn farw. Tra erys cylch aelwyd a chwarae'r plant yn Gymraeg, gwastraff yw moedro eu pennau â geiriau iaith arall.'

Erbyn 1893 roedd deg ysgol yn y dyffryn, pump yn rhai cenedlaethol a phump yn rhai annibynnol Cymraeg. Y Sbaeneg oedd cyfrwng y dysgu mewn tair ysgol genedlaethol, ond y Gymraeg oedd cyfrwng y dysgu yn y ddwy arall yn ogystal ag yn yr ysgolion annibynnol i gyd. Dair blynedd yn ddiweddarach yn 1896 cafwyd deddf gwlad a newidiodd gyfrwng yr addysg yn uniaith Sbaeneg. Erbyn 1899 'roedd yr ysgolion i gyd dan reolaeth y llywodraeth a'r Sbaeneg oedd unig iaith y dysgu. Felly ers can mlynedd ni chafodd y Gymraeg ei defnyddio o fewn y gynfundrefn addysg swyddogol. Ymgymerodd yr Ysgolion Sul â'r orchwyl o wneud y plant yn llythrennog yn iaith y cartref. Gan nad oedd y Cymry yn gwbl fodlon ag addysg yr ysgolion cenedlaethol sefydlwyd Cymdeithas Addysg Ganolraddol y Camwy yn 1904. Yn yr Ysgol Ganolraddol derbyniodd cenedlaethau o blant y Wladfa `addysg bellach' ar ôl cwblhau eu haddysg genedlaethol yn dair ar ddeg a phedair ar ddeg mlwydd oed. Yno defnyddiwyd y Gymraeg fel cyfrwng y dysgu, a thrwythwyd y plant yng ngramadeg y Gymraeg a chyflwynwyd hwy i wahanol weddau ar ei llenyddiaeth. Ysgol Ganolraddol Camwy oedd yr ysgol gyfun Gymraeg gyntaf ac eironi'r sefyllfa yw iddi gau eu drysau yn 1947 ar yr union adeg pan oeddem ni yng Nghymru yn dechrau sylweddoli bwysiced yw addysgu plant yn eu mamiaith eu hunain.

Bu cyfundrefn addysg a anwybyddai'r Gymraeg yn gyfangwbl yn ffactor allweddol yn erydiad cyflym yr iaith yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Y capel ydoedd yr unig sefydliad a roddai statws i'r Gymraeg ynghyd â phwyslais arni fel unig gyfrwng yr addoliad. Gyda'r cefnu graddol ar grefydd, daeth y Gymraeg fel y capeli yn nodweddion a gysylltid â hen bobl. Ar ddechrau chwarter olaf yr ugeinfed ganrif nid oedd unrhyw addysg Gymraeg ffurfiol ar

gael nac yn wir athrawon a fyddai'n gymwys i wneud hynny. Heddiw mae'r sefyllfa wedi ei gweddnewid yn llwyr a phwrpas yr Arolwg oedd cofnodi'r datblygiadau yng ngoleuni termau cyfeiriadol yr ymgynghoriad. Nodir yr amcanion yn fras isod:

* Disgrifio trawstoriad o'r ddarpariaeth addysgol Gymraeg sydd ar gael ar hyn o bryd yn Nyffryn Camwy ac yng Nghwm Hyfryd.

* Archwilio cyd-destun cymdeithasol-ddiwylliannol y galw am addysg Gymraeg a disgrifio'r cefndir ymagweddiadol.

* Archwilio a mesur effeithiau addysg Gymraeg ar y gymuned ac yn fwyaf arbennig ar y rhwydweithiau cymdeithasol Cymraeg.

* Tafoli dylanwad tymor byr a thymor hir addysg effeithiol Gymraeg ar ddyfodol yr iaith a'r diwylliant Cymraeg yn Chubut.

* Cynghori ac awgrymu strategaeth a fydd yn atgyfnerthu ac yn hybu datblygiad addysg Gymraeg yn y dyfodol.

## 1. GWEINYDDIAETH A METHODOLEG YR AROLWG

1.1 Cynhwysai cwmpas daearyddol yr arolwg yr holl ardaloedd hynny lle cynhelid dosbarthiadau Cymraeg ar y pryd - Porth Madryn, Rawson, Trelew, Gaiman a Dolafon yn Nyffryn Camwy a Threfelin yn yr Andes.

1.2 Ymwelwyd â phob dosbarth er mwyn cael amcan o safon y disgyblion yn ogystal â natur ac ansawdd y dysgu. Cafwyd cyfle i holi a sgwrsio â'r dosbarth a chofnodwyd sylwadau, gobeithion ac ymagweddiadau'r disgyblion. Holwyd hwy yn arbennig ynglyn â'u cymhellion dros ymuno â'r dosbarth. Nid oedd y fath ymateb yn bosibl gan blant bach y dosbarth meithrin. Ceisiwyd barn eu rhieni.

1.3 Ymwelwyd â thrawstoriad cynrychioliadol o fudiadau, sefydliadau ac awdurdodau o fewn y dosbarthiadau canlynol a) addysgiadol b) diwylliannol c) crefyddol ch) cymdeithasol d) llywodraeth leol a thaleithiol dd) y cyfryngau. (Gw. Atodiad III).

1.4 Ceisiwyd barn trawstoriad o'r cymunedau. Defnyddiwyd holiadur byr i sicrhau gwybodaeth ynglyn â defnydd cyfoes o'r Gymraeg ym mywyd pob dydd yr ardaloedd. Ceisiwyd eu barn ynglyn â'r tueddiadau a'r patrymau cyfredol yng nghymdeithaseg y Gymraeg. 'Roedd y rhai a holwyd i gyd yn rhugl yn y Gymraeg. Ni cheisiwyd sampl gynrychioliadol oherwydd cyfyngiadau amser ac adnoddau. Sampl barn (judgement sample) ydoedd yn bennaf a cheisiwyd cynrychiolaeth o blith y ddau ryw gan gynnwys amrywiaeth oedran.

1.5 Ceisiwyd mesur a phwyso effeithiolrwydd y drefn bresennol gan ystyried unrhyw gefnogaeth a datblygiad pellach yn nhermau i) dilyniant i'r ddarpariaeth bresennol ii) effeithiolrwydd iii) ymateb a chefnogaeth y cymunedau lleol iv) effeithiau tymor hir yn hytrach nag effeithiau byrhoedlog v) gallu'r gymuned i gynnal y fframwaith ddatblygedig ar derfyn cyfnod y prosiect arfaethedig.

1.6 Dewiswyd Gaiman fel canolfan i'r Arolwg oherwydd ei safle daearyddol yng nghanol Dyffryn Camwy a hefyd gan mai yno y ceir y gweithgarwch pennaf a'r gefnogaeth amlycaf i addysg Gymraeg. Cafwyd defnydd ystafell yng Ngholeg Camwy ynghyd â gwasanaeth teleffon. Drwy gydol cyfnod yr Arolwg cafwyd cymorth ymarferol a chyngor parod gan y brifathrawes, Luned Fychan Roberts de Gonzalez. Heb ei chefnogaeth a'i gallu trefniadol byddai wedi bod yn anodd iawn cynnal yr holl gyfweliadau a chasglu'r wybodaeth berthnasol. Hi oedd yn bennaf gyfrifol am drefnu cyfweliadau imi yn y Brifysgol, yn Swyddfeydd Addysg a Diwylliant y Dalaith ac â'r Maer yn Gaiman.

## 2. CRYNODEB O'R PRIF ARGYMHELLION

* Awgrymir bod cyfnod gweithredu'r argymhellion yn ymestyn dros o leiaf dair blynedd.

* Er mwyn diogelu dilyniant i'r ddarpariaeth bresennol ynghyd â hybu cynnydd mewn effeithiolrwydd awgrymir cefnogaeth ariannol ar gyfer sicrhau gwasanaeth **tri athro/athrawes o Gymru** bob blwyddyn. Gallai un fod yn gyfrifol am Ddolafon/Bryngwyn/Gaiman ac un arall i weithio yn Nhrelew/Rawson/Porth Madryn. Dylid lleoli'r trydydd i ddatblygu'r gwaith yng nghymunedau'r Andes.

* Sicrhau llunio/addasu rhagor o ddeunydd dysgu'r Gymraeg fel ail iaith ar gyfer rhai â'r Sbaeneg yn famiaith iddynt.
  Datblygu cyrsiau graddedig a fydd yn rhoi dilyniant o un ris i'r nesaf o fewn cwricwlwm strwythuredig.
  Cyhoeddi defnyddiau .
  Ystyried anghenion cwricwlaidd arbennig addysg plant ôl-feithrin.
  Datblygu cyrsiau ymestyn iaith a gloywi iaith ar gyfer siaradwyr rhugl.
  Sefydlu fframwaith asesu/arholi.

* Cefnogi hyfforddiant pellach yng Nghymru i ddarpar athrawon y Gymraeg o Batagonia.

* Symudoledd myfyrwyr - cefnogaeth i alluogi 6 myfyriwr addawol i fynychu Cwrs Cymraeg dwys am ddeufis (Gorffennaf/Awst) yng Ngoleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan.

* Ystyried ffyrdd i ail-sefydlu'r *DRAVOD* ar seiliau cadarnach.

* Ystyried cefnogaeth i Bwyllgor yr Eisteddfod i ddatblygu strategaeth weinyddol a marchnata a fydd yn cynhyrchu'r cyllid angenrheidiol a chefnogaeth gadarnhaol.

* Dylid trefnu arolygaeth flynyddol ynghyd â chyngor ac arweiniad yn ôl y galw i sicrhau bod amcanion y prosiect a gefnogir yn cael eu sylweddoli o fewn yr amserlen a bennir.

3. **DEFNYDD PRESENNOL O'R GYMRAEG**

Gaiman a Threlew yw'r ddwy ganolfan Gymraeg gryfaf yn Nyffryn Camwy ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Yno y cynhelir y nifer uchaf o ddosbarthiadau Cymraeg sef 18 yn y Gaiman, 7 yn Nhrelew tra na cheir ond 3 yn Nolafon a Phorth Madryn a 2 yn Rawson. Yn y Gaiman a Threlew hefyd y ceir y gefnogaeth gymunedol gryfaf ac yn y canolfannau hyn y lleolir yr unig gapeli Cymraeg sy'n cynnal oedfaon Cymraeg yn gyson bob Sul. Yn Gaiman lleolir Cymdeithas Ddiwylliannol ac Addysgiadol Camwy sy'n gyfrifol am Goleg Camwy ac am Lyfrgell Eluned Morgan. Yn Nhrelew ceir Cymdeithas Dewi Sant. Mae'r olaf yn berchennog neuadd o faint yng nghanol Trelew, nepell oddi wrth y Tabernacl y capel Cymraeg. Defnyddir yr ystafell flaen sy'n wynebu'r brif stryd, fel llyfrgell a man cyfleus i arddangos hen luniau, hen bethau a hen ddogfennau sy'n ymwneud â chyfraniad y Cymry i hanes a datblygiad Dyffryn Camwy o 1865 ymlaen. Cefnogasant gyfieithu i'r Sbaeneg lyfrau Cymraeg ar ddeng mlynedd ar hugain cyntaf y Wladfa ac yno o bosibl y ceir y casgliad mwyaf cyflawn yn y Sbaeneg sy'n ymwneud a lle'r Cymry yn hanes Ariannin. Ni cheid gweithgarwch fel hwn ddau ddegawd yn ôl.

Mae'r hinsawdd wleidyddol ac ymagweddiadol wedi newid cryn dipyn erbyn hyn. Yn y 70au y capel oedd yr unig sefydliad a gynhaliai'r Gymraeg. Bellach ceir sylfaen llawer ehangach i gynnal yr iaith ac y mae'r sefydliadau gwladwriaethol eu hunain yn llawer mwy goddefgar ohoni. Bellach caniateir i rieni roi enwau Cymraeg ar eu plant wrth gofrestru genedigaeth, yr hyn na chaniateid oddi ar gyfnod arlywyddiaeth cyntaf Peron.

Clywir llawer mwy o Gymraeg yn gyhoeddus ar y strydoedd, yn y siopau, yn y banciau a swyddfa'r post. Mae hi'n llawer amlycach yn y gymuned nag ydoedd yn ystod y 70au a'r

80au. Y pryd hwnnw iaith pobl canol oed a hyn oedd y Gymraeg a hynny yn bennaf o fewn y rhwydweithiau cymdeithasol a oedd yn gapel glwm. Bellach sefydlwyd cymdeithasau Cymraeg yn benodol ar gyfer rhoi cyfle i bobl allu cymdeithasu yn y Gymraeg, er enghraifft y Gymdeithas Lenyddol sy'n cyfarfod yn fisol naill ai yn y Gaiman neu yn Nhrelew. Sefydlwyd canghennau o Ferched y Wawr yn bennaf ar gyfer y canol oed a'r hyn. Yn Gaiman ceir cymdeithas ar gyfer merched iau a Chymdeithas y Bwthyn ar gyfer dynion ieuainc. Achlysuron penodol yw rhain ar gyfer cymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes rheol `Cymraeg yn unig' yng nghymdeithas y merched iau nac yng Nghymdeithas y Bwthyn, gan eu bod yn awyddus i ddenu yno led-siaradwyr y Gymraeg yn ogystal â dysgwyr. Gwelir y cymdeithasau fel cyfryngau i gymathu newydd-ddyfodiaid (dysgwyr) yn ieithyddol i rwydweithiau cymdeithasol Cymraeg. Nid oedd dim o'r fath ar gael ddau ddegawd yn ôl. Nid oedd yr ifanc o aelwydydd Cymraeg yn fodlon arddel y Gymraeg y pryd hwnnw. Bellach mae'r darlun yn dra gwahanol. Mae'r Gymraeg yn ffasiynol a'r genhedlaeth ifanc o gefndir Cymraeg, cymysg a Lladinaidd yn frwdfrydig dros ddysgu'r Gymraeg. Tystia llawer o bob oedran fod mwy o gyfle i siarad y Gymraeg yn awr nag ydoedd pan oeddynt yn blant.

Ar derfyn fy `Arolwg tafodieithegol-gymdeithasegol o'r Gymraeg' yn 1974 'roedd y darlun ynglyn â dyfodol y Gymraeg yn y Wladfa yn bur ddu. 'Roedd lleihad cyson yn nifer ei siaradwyr a defnyddioldeb cymdeithasegol y Gymraeg wedi ei gwtogi'n sylweddol. Iaith rhai aelwydydd a'r capel ydoedd hi a thueddiad cryf i droi i'r Sbaeneg ym mhob sefyllfa arall. Nid gallu'r cyfathrebwyr i ddeall a siarad y Gymraeg a gyflyrai'r dewis ieithyddol ond hefyd i raddau faes y traethu a lleoliad y traethu. Bellach clywir y Gymraeg mewn llawer mwy o sefyllfaoedd cymdeithasol, ac â unigolion ati'n fwriadol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd yr oeddynt ynghynt wedi eu cyflyru i ddefnyddio'r Sbaeneg ynddynt. Cawn yno felly enghreifftiau o `normaleiddio' defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol

dilys. Yng nghylchoedd cymdeithasol Gaiman - Trelew y ceir hyn fwyaf. Ymhlith yr ifanc a'r canol oed ifanc y gwelir y newid pennaf a hynny ymhlith y rhai a ddysgodd y Gymraeg fel ail iaith ar ôl cyfnod eu plentyndod. Llwyddodd y gwersi Cymraeg yn ystod y chwe blynedd diwethaf i greu dysgwyr rhugl, a brwdfrydedd heintus y rhain sy'n gyfrifol am ymestyn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a defnydd ohoni ymhlith oedolion ieuainc. O safbwynt cymdeithaseg iaith, dyma'r union genhedlaeth sy'n allweddol yn y broses o drawsnewid symudiad ieithyddol (reversal of language shift), oherwydd gallant newid iaith eu haelwydydd o'r Sbaeneg i'r Gymraeg. Dyma'r genhedlaeth sy'n awyddus i'w plant ddod yn rhugl yn y Gymraeg a hwy yw cefnogwyr y Cylchoedd Meithrin yn y Gaiman ac yn Nhrelew.

Ni cheir bwrlwm cyffelyb yn Rawson nac ym Mhorth Madryn. Dichon bod dwysedd yr elfen Gymraeg yn y boblogaeth gyflawn yn is. Yma cafwyd amlygiadau llai trawiadol o ddeffroad ymwybyddiaeth Cymreig ond yn sicr tyfodd y diddordeb. Yn Rawson eleni y cynhelir y dosbarth dechreuwyr mwyaf sy'n cynnwys myfyrwyr o amrywiaeth o oedrannau, yn rhai o gefndir teuluol Cymraeg, a rhai heb unrhyw gysylltiad blaenorol â'r iaith. Yn y dref dechreuwyd cynnal oedfaon Cymraeg achlysurol yng Nghapel Berwyn. Rai blynyddoedd yn ôl anfonwyd un o ddisgyblion y dosbarth Cymraeg i'r Cwrs Cymraeg Dwys yn Llanbedr Pont Steffan. Dychwelodd yn rhugl ac yn hyderus. Ym Mhorth Madryn, pobl wedi ymsefydlu yno o rannau eraill o Ddyffryn Camwy ac o'r Andes yw'r Cymry Cymraeg. Nid ydynt yn niferus, ond eto llwyddasant i sefydlu canolfan gymdeithasol Gymraeg yno. Maent yn griw brwdfrydig ac addaswyd Ty Toshke yn arbennig o dda fel ystafell ddysgu a man cymdeithasu. Llwyddir i ennyn diddordeb yn y Gymraeg ymhlith rhai nad oes ganddynt unrhyw gysylltiad Cymreig o gwbl. 'Roedd gwraig maer Porth Madryn (dim cefndir Cymraeg) ymhlith aelodau mwyaf selog o'r dosbarth Cymraeg. Iaith rhwydweithiau cymdeithasol rhannol yw'r Gymraeg ym Mhorth Madryn. Defnydd cyfyngedig sydd iddi yno

oherwydd nifer bychan y siaradwyr a phrinder sefyllfaoedd a chyfleoedd i'w defnyddio. Serch hynny 'roedd ysbryd hyfryd yn y ganolfan ac awydd gwirioneddol i allu cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Iaith leiafrifol yw'r Gymraeg drwy Ddyffryn Camwy i gyd. Sbaeneg yw mamiaith y mwyafrif a hi yw `linqua franca'r' cymunedau oddi ar y 50au. Daethai'r Sbaeneg yn brif iaith y cymunedau a oedd ynghynt yn bennaf yn Gymraeg eu hiaith. Nid oedd statws na gwerth i'r Gymraeg a pheidiodd y trosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r llall. 'Roedd delwedd y Cymry o'u hiaith yn anffafriol a'r ymagweddu'n gwbl negyddol. Ymddengys fod y rhod wedi troi a'r Gymraeg bellach yn uchel ei statws a'r ddelwedd ohoni yn un gadarnhaol a ffafriol. Gwelwyd olion deffroad a diddordeb newydd yn ardal Trefelin yn yr Andes hefyd. Sefydlwyd dosbarth Cymraeg i ddechreuwyr yno gydag ugain o bobl ieuainc. Dechreuwyd rhaglen Gymraeg wythnosol ar y radio lleol a chyflwynwyd agweddau Cymreig ar raglenni teledu lleol. Ni chafodd yr Andes fanteision athrawon Cymraeg fel y cafodd Dyffryn Camwy. Byddai anfon athro-drefnydd yno i weithio am gyfnod yn sicr o ennyn brwdfrydedd a gweithgarwch lleol tebyg i'r hyn a welir yn y Gaiman ar hyn o bryd.

Elfen gref arall yn y diddordeb ymhlith yr ifanc yw'r ffaith fod nifer o fyfyrwyr o Gymry wedi ymweld â'r Wladfa am gyfnodau o chwe mis fel rhan o'u cwrs gradd mewn Sbaeneg ym Mhrifysgol Cymru. Bu eu cyfraniad yn dra phwysig yn enwedig felly ymysg eu cyfoedion yn y Wladfa. Llwyddasant i ddileu'r gred mai iaith hen bobl oedd y Gymraeg. Mae safle'r Gymraeg wedi cryfhau yn y Wladfa ond mae angen cadarnhau'r amodau cymdeithasol hynny a fydd yn sicrhau ffyniant tymor hir. Mae cyfundrefn addysg hyblyg ond effeithiol yn oll bwysig.

Wrth siarad ag unigolion ceisiwyd atebion i holiadur syml a gynhwysai un gofyniad ar ddeg. (Atodiad II) Nid oedd amser i weinyddu hwn yn ôl dulliau samplo gwyddonol ac

oherwydd hynny ni allaf warantu fod yr atebion yn gwbl gynrychioliadol er fy mod o'r farn eu bod yn atebion gonest a dilys. 'Roedd pawb o'r farn bod defnydd o'r Gymraeg wedi ei ymestyn yn ystod y pum mlynedd diwethaf a bod hynny'n amlwg drwy'r dosbarthiadau Cymraeg a chyfraniad y rhai hynny i wneud llawer mwy o'r gymdeithas yn ymwybodol o fodolaeth y Gymraeg. 'Roedd y rhan fwyaf yn obeithiol ynglyn â'r dyfodol oherwydd bod cymaint yn dysgu'r iaith, a rhai a oedd â chrap ar yr iaith, bellach yn fodlon mentro i'w siarad. Y farn gyffredinol oedd mai'r cartref, y capel a'r eisteddfod oedd prif beuoedd y Gymraeg, ond 'roedd yn ddiddorol gweld bod siopau, y côr a'r gwaith yn ennill tir fel sefyllfaoedd normaleiddio defnyddio'r Gymraeg. 'Roedd bod yn aelod o'r côr wedi bod yn gymhelliad cryf i rai ymaelodi mewn dosbarth Cymraeg. Fel ateb i ofyniad 9 (Sut mae cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg?) cyfeiriodd y rhan fwyaf at bwysigrwydd parhad a chynnydd mewn addysg Gymraeg. Cyfeiriwyd droeon hefyd at y ffaith fod pobl yn llawer mwy parod i siarad Cymraeg yn gyhoeddus a'u bod yn synnu at gymaint a oedd â gwybodaeth oddefol o'r Gymraeg. Cafwyd cynnydd yn swm ac ansawdd y Gymraeg ar lwyfan yr Eisteddfod yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Canmolid yr arweinyddion ieuanc am gyflwyno cystadleuwyr o'r llwyfan yn y Gymraeg ac am annerch y gynulleidfa hefyd yn y Gymraeg er mai dysgwyr (tra rhugl) oeddynt hwy eu hunain. Mae'n amlwg fod symudiad pwysig yn nelwedd y Gymraeg ac i raddau yr ieuainc sy'n symbylu ac yn arwain y newid hwnnw.

Ar y cyfan cyfrwng llafar yw'r Gymraeg. Oherwydd polisi unieithog Sbaeneg y gyfundrefn addysg ni dderbyniodd y rhan fwyaf unrhyw hyfforddiant yn yr iaith ysgrifenedig. Yr unig rai sy'n weddol hyderus yn y Gymraeg ar bapur yw'r rhai o blith y genhedlaeth hynaf. (dros chwe deg pum mlwydd oed) a fu'n ddisgyblion yn yr Ysgol Ganolraddol. O'u plith hwy y daw cystadleuwyr ar yr ochr lenyddol yn Eisteddfod y Wladfa ac yn y gystadleuaeth i Wladfawyr yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Ar y cyfan y Sbaeneg yw iaith darllen ac

ysgrifennu. Ni chynhyrchodd y gymdeithas ddarllenwyr brwd yn y Gymraeg yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf a dichon y gellid dweud fod prinder llyfrau diddorol yn ffactor gyflyrol ychwanegol. Lleolir llyfrgell eithaf helaeth yng Ngholeg Camwy ond y mae cyfran uchel o'r llyfrau yn hen iawn er fod yr ychwanegiadau diweddar yn llawer mwy amrywiol o ran eu meysydd ac yn fwy deniadol o ran eu diwyg. Mae'n amlwg fod diffyg meistrolaeth ar y cyfrwng ysgrifenedig yn ffactor sy'n gallu effeithio ar bosibiliadau cyweiriol yr unigolyn yn y Gymraeg. Caiff effaith hefyd ar y defnydd a wneir o iaith mewn sefyllfaoedd sy'n galw am amrywiadau ffurfiol. I lawer mae eu posibiliadau cyweiriol yn y Gymraeg yn gyfyng. Rhan bwysig o'r ddarpariaeth addysgol Gymraeg yw unioni'r fath ddiffyg drwy ymestyn geirfa a chystrawennau'r siaradwyr rhugl yn y ddau gyfrwng a thrwy hynny gadarnhau perthnasedd cymdeithasol y Gymraeg.

## 4. ADDYSG GYMRAEG

### 4.1 Cefndir

Peidiodd addysg Gymraeg pan gaewyd drysau'r Ysgol Ganolraddol yn gynnar yn 1947. Am dros ddeugain mlynedd ni chafwyd addysg Cymraeg ei gyfrwng heblaw am addysg yr Ysgol Sul. Erbyn y 70au Sbaeneg oedd cyfrwng y gwersi i'r plant yn yr Ysgol Sul hefyd ac felly cyfrwng llafar yn unig yw'r Gymraeg i'r canol oed a'r canol oed-ifanc a ddysgodd y Gymraeg ar yr aelwyd pan yn blant. Roedd dechrau dosbarthiadau Cymraeg ar gyfer siaradwyr y Gymraeg ac ar gyfer dysgwyr yn ffenomenon tra chwyldroadol ar ddiwedd yr wyth degau. Cymdeithas Cymru Ariannin oedd yn bennaf gyfrifol am hybu'r fath ddatblygiad, a hi a fu'n gyfrifol am sicrhau athro o Gymru bob blwyddyn am y chwe blynedd diwethaf.

### 4.2 Datblygiad y Dosbarthiadau Cymraeg

Dechreuodd y gweithgarwch ar raddfa fechan gyda'r athrawes Gymraeg gyntaf o Gymru yn cynnal dosbarthiadau yn y Gaiman, Dolavon a Threlew. Ar y dechrau 'roedd yr addysg wedi ei anelu at Gymry Cymraeg. 'Roedd cryn alw am wella iaith, ymestyn cyweiriau ac ymgydnabod â llên a diwylliant Cymraeg. Ymestynnodd y gwaith i gynnwys dysgu'r Gymraeg fel ail iaith i oedolion ac yna i bobl ieuainc a phlant. Gwreiddiodd y gwaith gan arwain at ddosbarthiadau dilyniant i'r cyrsiau i ddechreuwyr. Estynnwyd rhwydwaith y dosbarthiadau ymhellach gan ymsefydlu yn Rawson a Phorth Madryn yn ogystal ag yn y tri chanolfan arall. Drwy gydol yr amser parhaodd y Gaiman yn brif ganolfan y gweithgarwch addysgol a hynny o bosibl am mai yno y trefnwyd cartref i'r athro ar ymweliad, yn Nhy'r Camwy sy'n eiddo i Gymdeithas Addysg a Diwylliant Camwy. Dyma'r gymdeithas sy'n

gyfrifol am Goleg Camwy. Ynddi dysgir y maes llafur cenedlaethol a llywodraeth y Dalaith sy'n gyfrifol am dalu 90% o gyflogau'r athrawon. Y gymdeithas ei hun sy'n gyfrifol am yr adeiladau a'r offer ac am dalu'r 10% arall sy'n weddill o gyflogau'r athrawon. Ddwy flynedd yn ôl sefydlwyd dosbarth Cymraeg yng Ngholeg Camwy ar gyfer yr athrawon ac fe'i cynhelid ar dri bore yr wythnos rhwng 7.45 a 9.45 yn y bore. Ni pharhaodd yr arbrawf yn bennaf am fod galwadau ychwanegol eraill ar amser yr athro ar ymweliad. Yn 1995 cynigiwyd cwrs Cymraeg o fewn cwricwlwm yr ysgol i ddisgyblion blwyddyn 4 (16 mlwydd oed). Eleni dysgir y Gymraeg ym mlwyddyn 4 a blwyddyn 5. Yn y Gaiman hefyd y cychwynnwyd y Cylch Meithrin cyntaf ddwy flynedd yn ôl. Eleni cychwynnodd Cylch Meithrin newydd yn Nhrelew. Felly yn awr ceir darpariaeth addysgol Gymraeg ar gyfer pob oedran.

### 4.3 **Braslun o'r ddarpariaeth**

**TABL I: Niferoedd y disgyblion yn ôl ardal ac oedran**

| Oedran | Cylch Gaiman | Cylch Trelew | Cylch Trefelin | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Meithrin 3-6oed | 20 | 12 | | 32 |
| 7 mlwydd oed | 8 | | | 8 |
| Cynradd 11-12 oed | 31 | | | 31 |
| Eilradd 13-15 oed | 18 | 6 | 10 | 34 |
| Eilradd 16-17 oed | 74 | | 10 | 84 |
| Oedolion | 50 | 74 | | 124 |
| Cyfanswm | 201 | 92 | 20 | 313 |

**TABL II: Dosbarthiad myfyrwyr yn ôl oedran a safon**

| Oedran | Rhugl | Dysgwyr | Dechreuwyr | % |
|---|---|---|---|---|
| Oedolion | 43 | 29 | 52 | 39.6 |
| Pobl ieuainc | | 52 | 66 | 37.7 |
| Plant | | 13 | 58 | 22.7 |
| % | 14 | 30 | 56 | 100 |

**TABL III: Dosbarthiad o oriau dysgu'r athrawon yn ôl ardal**

| Athro | Cylch Gaiman | Cylch Trelew | Cylch Trefelin | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwilym Roberts | 10.5 | 12.5 | | 23 |
| Gabriel Restucha | 8 | | | 8 |
| Carlos Blasetti | 2 | | | 2 |
| Mary Zampini | 20 | | | 20 |
| Nansi Jones | | (1)gyda Gwilym Roberts | | |
| Monica Jones | | 6 | | 6 |
| Mary Green de Borda | | | 1.5 | 1.5 |
| Cyfanswm | 40.5 | 18.5 | 1.5 | 60.5 |

## 4.4 Yr Athrawon

**Gwilym Roberts:** Ef yw'r athro ar ymweliad o Gymru yn ystod 1995-96. Ef yw'r unig athro sy'n dysgu pob oedran a phob safon. Bydd yn gadael Dyffryn Camwy yn niwedd Gorffennaf 1996.

**Gabriel Restucha:** Mae ef yn dysgu disgyblion 13-17 mlwydd oed ac oedolion ieuainc yn y dosbarthiadau gwirfoddol yn ogystal â disgyblion 15-17 mlwydd oed mewn dosbarthiadau o fewn maes llafur Coleg Camwy. Hon yw'r unig ysgol sy'n dysgu'r Gymraeg fel pwnc o fewn y cwricwlwm. Ar yr un pryd mae Gabriel yn brysur yn llunio cwrs Cymraeg 100 awr ar gyfer myfyrwyr y mae'r Sbaeneg yn famiaith iddynt.

**Carlos Blasetti:** Ef sy'n gyfrifol am ddau ddosbarth gwirfoddol i blant rhwng 11 a 12 mlwydd oed. Cynhelir y dosbarthiadau yn yr Ysgol Gynradd Genedlaethol. Ail iaith yw'r Gymraeg i Carlos a Gabriel a bu'r ddau ar gyrsiau Cymraeg dwys ym Mhrifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan.

**Mary Zampini:** Athrawes gerdd yw hon, a sefydlodd ysgol feithrin yn y Gaiman ddwy flynedd yn ôl. Cynhelir yr ysgol mewn adeilad a adnewyddwyd ac a roddir yn rhad ac am ddim gan Gyngor Trefol y Gaiman. Mae'r adeilad yn hynod o addas ar gyfer ymestyn y gwaith gan fod ynddo dri dosbarth. Derbyniodd Mary hyfforddiant arbenigol mewn gwaith meithrin yng Ngholeg Normal, Bangor, Coleg y Drindod, Caerfyrddin ac yng nghylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin. Hi yw'r unig athrawes yn yr Ysgol Feithrin ond cynorthwyir hi gan weinyddes feithrin.

**Nansi Jones:** Mae hon yn dysgu llenyddiaeth ym Mhrifysgol Trelew ond hefyd mae'n dysgu dosbarth dechreuwyr yn Rawson gyda Gwilym Roberts. Treuliodd ddeufis yn dysgu'r Gymraeg yn Llanbedr Pont Steffan.

**Monica Jones**: Agorodd hon Ysgol Feithrin yn Nhrelew yn Ebrill 1996. Addaswyd ystafell yn ei chartref at y diben hwn. Mae'n athrawes wedi ei hyfforddi, ond nid ar gyfer plant oedran meithrin.

**Mary Green de Borda:** Graddiodd hon yn y Gymraeg a'r Sbaeneg ym Mhrifysgol Cymru Abertawe yn 1978. Hi yw'r unig athrawes gymwys yn ardal Trefelin a hi felly sy'n gyfrifol am y dosbarth Cymraeg. Cynhelir y dosbarth mewn ysgol gynradd breifat, sy'n ystyried cynnwys y Gymraeg o fewn y maes llafur.

4.4.1 Cynhelir y dosbarthiadau gwirfoddol (heblaw am y rhai meithrin) unwaith yr wythnos. Yn ddelfrydol dylid cynnal o leiaf dwy sesiwn yr wythnos yn ogystal â dosbarthiadau dwys, ond nid yw'r adnoddau dysgu presennol yn caniatáu hynny. Byddai'n fwy effeithiol pe

rhennid y baich dysgu rhwng dau athro profiadol gan amlhau mynychder y dosbarthiadau. Gallai un athro wedyn ganolbwyntio at Gaiman/Bryngwyn/Dolafon a gallai'r llall weithio yn Nhrelew/Rawson/Porth Madryn.

4.4.2 Trefnir llety di-dâl i'r athrawon ar ymweliad yn Nhy Camwy yn y Gaiman. Bu'r gyfundrefn fel y gweithredwyd hi yn gwbl ddibynnol ar sicrhau gwasanaeth athro o Gymru bob blwyddyn. Talwyd y costau teithio rhwng Cymru a Phatagonia a'r yswiriant meddygol gan Gymdeithas Cymru Ariannin. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf derbyniwyd cymhorthdal i dalu am y costau teithio gan y Cyngor Prydeinig (Cymru). Rhoddir ty yn ddi-rent ynghyd â thrydan, dwr a nwy gan Gymdeithas Addysg a Diwylliant y Camwy. Telir costau teithio'r athro gan Gymdeithas Dewi Sant, Trelew, a chan gymdeithasau Cymraeg Rawson a Phorth Madryn. Ond am ei lafur ni dderbyn yr athro gydnabyddiaeth ariannol. Hyd yn hyn llwyddwyd i gael athrawon a oedd yn derbyn pensiwn yng Nghymru gan iddynt ymddeol yn gynnar. Mae'r ffaith yma eto'n wendid yn y trefniant presennol. Oni ellir dennu athro sydd wedi ymddeol yn gynnar, ni fydd athro ar gael. Hyd yn hyn llwyddodd Cymdeithas Cymry Ariannin i sicrhau gwasanaeth athrawon arbennig iawn. Mae'n amlwg i'r pump a fu yno yn ystod y chwe blynedd diwethaf gyfrannu'n helaeth nid yn unig i faes addysg Gymraeg ond hefyd i'r ymwybyddiaeth o wreiddiau a diwylliant sy'n elfen dra phwysig bellach ym mywyd Talaith Chubut.

4.4.3 Mae'r dosbarthiadau gwirfoddol i gyd yn rhad ac am ddim. Dylai'r cymdeithasau lleol ystyried codi tâl teg yn y dyfodol er mwyn gallu sicrhau rhagor o ddefnyddiau dysgu a chyfraniad tuag at gostau cynnal yr athrawon.

## 4.5 Y Sector Gwirfoddol

Cynhelir wyth ar hugain o ddosbarthiadau o fewn y categori hwn wedi eu trefnu yn ôl haenau oedran, o blant 11 a 12 mlwydd oed hyd at oedolion. Dysgir 21 dosbarth gan Gwilym Roberts, sef 75% o'r cyfanswm. Gwilym Roberts yw'r unig athro sy'n dysgu pob oedran, a phob safon. Pobl ieuainc yn unig (dechreuwyr) a ddysgir gan Mary Green de Borda a phlant yn unig sydd yn nosbarthiadau Carlos Blasetti. Pobl ieuainc ac oedolion ieuainc, yn ddechreuwyr ac yn ddysgwyr yw disgyblion Gabriel Restucha.

**TABL IV: Sector gwirfoddol di-dâl: Athrawon/dosbarthiadau**

| | Nifer y dosbarthiadau | Canran |
|---|---|---|
| Gwilym Roberts | 21 | 75% |
| Gabriel Restucha | 4 | 14% |
| Carlos Blasetti | 2 | 7% |
| Mary Green de Borda | 1 | 4% |

**TABL V: Sector gwirfoddol di-dâl. Disgyblion pob athro yn ôl lefelau ieithyddol**

| | Rhugl | Dysgwyr | Dechreuwyr |
|---|---|---|---|
| Gwilym Roberts | 30% | 27% | 43% |
| Gabriel Restucha | | 36% | 64% |
| Carlos Blasetti | | | 100% |
| Mary Green de Borda | | | 100% |

**TABL VI: Sector gwirfoddol di-dâl. Disgyblion pob athro yn ôl oedran**

| | Oedolion | Pobl Ieuainc | Plant |
|---|---|---|---|
| Gwilym Roberts | 68% | 13% | 19% |
| Gabriel Restucha | 21% | 79% | |
| Carlos Blasetti | | | 100% |
| Mary Green de Borda | | 100% | |

Mae'r ddadl dros barhau'r drefn bresennol o gael athro ar ymweliad yn un ddilys a chryf. Dyma'r unig ffordd i sicrhau dilyniant o flwyddyn i flwyddyn a hon yw'r fframwaith mwyaf effeithiol ar gyfer hyfforddi rhai o'r Wladfa a fydd yn gymwys i wneud y gwaith eu hunain yn y dyfodol. Byddai sicrhau dau athro i'r Dyffryn yn golygu y gallai athro profiadol dreulio peth o'i amser yn trefnu cyrsiau uwch - llên a iaith i ddarpar athrawon cymwys.

4.6 **Sector Gwirfoddol Addysg Feithrin**

Ar hyn o bryd y mae dwy Ysgol Feithrin Gymraeg yn y Wladfa, y naill yn y Gaiman a'r llall yn Nhrelew. Gweithreda'r ddwy o'r tu allan i gyfundrefn addysg genedlaethol y wlad, gan ddibynnu'n gyfan gwbl ar gefnogaeth ariannol gwirfoddol. Sefydlwyd yr ysgol gyntaf yn y Gaiman gan Mary Zampini dair blynedd yn ôl a bellach y mae tri dosbarth oedran yn gofrestredig yno. Dengys Tabl VII sut y dosberthir y plant yn ôl oedran.

**TABL VII:**

**Plant yr Ysgol Feithrin/dosbarth cynradd yn Gaiman**

| Oedran | 3-4 oed | 5-6 oed | 6-7 oed |
|---|---|---|---|
| Nifer y disgyblion | 15 | 5 | 8 |
| Nifer y sesiynau mewn wythnos | 5 | 3 | 2 |

Yn Tabl VIII dangosir amserlen wythnosol Ysgol Feithrin y Gaiman. Mae'r dosbarth ieuengaf yn cyfarfod bum gwaith yr wythnos, cyfanswm o ddeng awr. Caiff y plant rhwng 5 a 6 blwydd oed chwe awr o wersi yr wythnos a daw y plant 6 a 7 mlwydd oed ynghyd am bedair awr yr wythnos. Mae'n amlwg bod y ddarpariaeth yn anghyfartal ond prinder athrawon cymwys yw'r diffyg pennaf.

**TABL VIII: Amserlen wythnosol yr Ysgol Feithrin**

| | Bore | Prynhawn |
|---|---|---|
| Llun | Dosbarth I | Dosbarth II |
| Mawrth | Dosbarth I | Dosbarth II |
| Mercher | Dosbarth I | Dosbarth III |
| Iau | Dosbarth I | - |
| Gwener | Dosbarth I | Dosbarth II |
| Sadwrn | Dosbarth III | - |

Gofelir am y plant gan un athrawes ac un weinyddes feithrin. Codir tâl misol am bob plentyn sef tua £1 am bob sesiwn. Nid yw'n ddigon i dalu costau trydan a gwresogi ynghyd â chyflogau teilwng i'r ddwy sy'n gofalu am y plant. Ni ellid ymestyn i gyflogi athrawes ychwanegol hyd yn oed am gyflog annigonol heb yn gyntaf godi tâl uwch ar y rheini. Yr unig ffordd y gallai'r Ysgol Feithrin a'r dosbarthiadau ôl-feithrin fod yn hunan gynhaliol fyddai drwy i lwyddiant addysgol y plant esgor ar gynnydd pellach yn niferoedd y rhai a fyddai'n anfon eu plant yno.

Mae'r Ysgol Feithrin yn y Gaiman ar groesffordd. Oni ddatblygir dosbarthiadau ôl feithrin a fyddai'n sylfaen i ddatblygiadau pellach mewn addysg gynradd yn y Gymraeg nid oes dyfodol i'r Ysgol Feithrin ei hunan. Ofer yw hybu dwyieithrwydd mewn plant bach oni cheir dilyniant i gadarnhau'r hyn a gyflawnwyd yn y cylchoedd meithrin.

Eleni agorwyd dosbarth Meithrin yn Nhrelew gyda 12 plentyn wedi eu cofrestru. Cynhelir y dosbarth am 5 p.m. dair gwaith yr wythnos. Gobaith yr athrawes, Mrs. Monica Jones, yw gallu datblygu'r ddarpariaeth ar linellau Ysgol Feithrin Gaiman gan gynnig addysg gynradd Gymraeg i'r plant hynny a fydd yn 6 blwydd oed a throsodd. Bydd angen cymorth, cefnogaeth a hyfforddiant ar yr athrawes pan ddigwydd hynny. Ar hyn o bryd mae'r argoelion yn obeithiol a dylai nifer y disgyblion gynyddu.

## 4.7 Y Sector Addysg Swyddogol

Am yr ail flwyddyn yn olynol cyflwynwyd y Gymraeg fel pwnc o fewn y cwricwlwm cenedlaethol yn nwy flynedd olaf Coleg Camwy. Rhoddwyd y dewis i'r plant rhwng y Gymraeg a'r Ffrangeg. Ystyrid hwn yn arbrawf am flwyddyn gan Awdurdod Addysg y Dalaith yn Rawson. Bu'n llwyddiant a pharhawyd â'r un drefn yn ystod y flwyddyn gyfredol. Eleni y mae 32 o blant yn derbyn gwersi Cymraeg yng Ngholeg Camwy. Gabriel Restucha yw'r athro ac 'roedd yn bleser cael gwrando ar rai o'i wersi gyda'r bobl ieuainc hyn.

Caniataodd yr Awdurdod Addysg i'r arbrawf fynd rhagddo, ond nid yw'n barod i dalu cyflog i'r athro am bedair awr o ddysgu bob wythnos. Cymdeithas Addysg a Diwylliant y Camwy sy'n gyfrifol am hynny. Serch hynny nid atodiad i'r cwricwlwm yw'r Gymraeg. Mae'n rhan o asesiad disgybl tuag at dderbyn tystysgrif am gyflawni addysg eilradd yn llwyddiannus.

## 4.8 Crynodeb o'r Ddarpariaeth

Ar hyn o bryd ceir darpariaeth addysgol Gymraeg ar gyfer cyfanswm o 313 o unigolion yn y Wladfa ac fe'u dysgir gan chwech o athrawon. Yn Tabl IX rhestrir nifer yr oriau a ddysgir gan bob athro ynghyd â chyfanswm y disgyblion a ddysgir gan bob un.

**TABL IX: Gwersi Cymraeg - Athrawon/Oriau**

| | Oriau | % | Disgyblion | % |
|---|---|---|---|---|
| Gwilym Roberts | 23 | 38 | 143 | 46 |
| Gabriel Restucha | 8 | 13 | 94 | 30 |
| Carlos Blasetti | 2 | 3 | 16 | 5 |
| Mary Zampini | 20 | 33 | 28 | 9 |
| Monica Jones | 6 | 10 | 12 | 4 |
| Mary Green de Borda | 1.5 | 3 | 20 | 6 |

Mae'n amlwg mai'r athro ar ymweliad sy'n ysgwyddo pen trymaf y baich dysgu o safbwynt cyfanswm oriau a chyfanrif disgyblion.

## 5. AGWEDD AWDURDOD ADDYSG TALAITH CHUBUT

Drwy'r Ddeddf Addysg Daleithiol (Federal Law of Education), Ebrill 14 1993, datganolwyd addysg yn yr Ariannin gan roi'r cyfrifoldeb ar ysgwyddau'r Weinyddiaeth Addysg ym mhob talaith. Er bod y ddeddf yn mynnu gwarantu undod strwythurol drwy'r wlad i gyd, gall ganiatáu ar yr un pryd fesur helaethach o ryddid i ddatblygu rhai agweddau taleithiol. Mae'r fath amrywiaeth taleithiol yn gam sylweddol ymlaen oddi wrth y fframwaith haearnaidd flaenorol. Cynt gallai ysgolion preifat ddilyn y cwricwlwm cenedlaethol yn y bore gan ddilyn trywydd a phwyslais gwahanol yn y prynhawn. Ar ddechrau'r 1990au mynychai 90% o blant y dalaith ysgolion cenedlaethol ac yn y rhai hynny nid oedd modd gwyro oddi wrth y drefn genedlaethol. Nid oedd yn bosibl cyflwyno'r Gymraeg yn yr ysgolion am nad oedd yn rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol.

Beth yw agwedd Awdurdod Addysg Talaith Chubut tuag at y Gymraeg? Hyd yma dangosodd gydymdeimlad a pharodrwydd i gefnogi unrhyw symudiad y gellid ei ddehongli o dan y penawd `amrywiaeth taleithiol'. Yn yr Ysgolion Eilradd dysgir y Saesneg ym mlynyddoedd 1 - 3 ac yna'r Ffrangeg ym mlynyddoedd 4 - 5. Weithiau cynigir y Saesneg a'r Ffrangeg ym mlynyddoedd 4 - 5. Dwy flynedd yn ôl cyflwynwyd cais gan Goleg Camwy i gael cynnig dewis i fyfyrwyr blwyddyn 4 - naill ai'r Gymraeg neu'r Ffrangeg. Cytunodd y Gweinidog Addysg a sefydlwyd cwrs dwy flynedd ar ddechrau blwyddyn ysgol 1995. Dewisodd 16 disgybl astudio'r Gymraeg. Eleni dymunai 29 disgybl allan o 32 ddewis y Gymraeg yn hytrach na'r Ffrangeg ar ddechrau blwyddyn 4. Caniatawyd i 16 disgybl gofrestru yn y dosbarth Cymraeg! Yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol felly y mae 32 disgybl yn derbyn addysg Gymraeg o fewn y cwricwlwm cenedlaethol. 'Roedd yr Awdurdod Addysg yn fodlon i Goleg Camwy gynnal yr `arbrawf' ond nid oedd yn fodlon talu cyflog yr athro!

Ar 2 Ebrill trefnwyd cyfarfod â'r Dr. Norberto Mazzoni, Gweinidog Addysg y Dalaith. 'Roedd yn hael ei glod i'r Cymry ac yn dra ymwybodol o'u cyfraniad allweddol yn hanes Talaith Chubut. Nid oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r Gymraeg gael ei dysgu yn y sector cynradd os oedd galw am hynny o du'r rhieni. Ni chytunai â threfniant un flwyddyn yn unig ond yn hytrach ffafriai gynllun a roddai ddilyniant i'r dysgu o flwyddyn i flwyddyn drwy'r ysgol gynradd. Gwersi Cymraeg a fyddai y rhain ond y Sbaeneg a fyddai cyfrwng dysgu pob pwnc arall. Ymddengys iddo dderbyn cais tebyg gan ddisgynyddion teuluoedd Boer a ddaeth o Dde'r Affrig i gyffiniau Commodoro Rivadavia ar droad yr ugeinfed ganrif. Roedd o'r farn ei bod yn bwysig hyrwyddo'r nodweddion gwahaniaethol taleithiol. Trafodwyd y mater yn fanwl ac awgrymodd y byddai modd dod i ryw gytundeb ynglyn â chyfnewid athrawon yn arbennig felly pan ddechreuid prosiect o'r fath. Gallai athro/athrawes o Gymru ddod i Chubut am gyfnod i sefydlu patrwm a rhaglen ddysgu tra gallai athro/athrawes o Chubut dreulio'r union amser yng Nghymru fel athro/athrawes dan hyfforddiant. Erbyn diwedd y cyfweliad roedd yn bleidiol i brosiect o'r fath ddechrau mewn un ysgol a byddai'r Weinyddiaeth Addysg yn talu cyflog yr athro. Dylid cyflwyno cynllun prosiect yn cynnwys cwricwlwm manwl i'r Swyddfa Addysg yn Rawson drwy law maer y cyngor lleol.

Y dydd dilynol ymwelwyd â Maer Gaiman gan amlinellu cynnwys trafodaeth y dydd blaenorol. 'Roedd yn hynod o gefnogol ond yn dra amheus a ddeuai unrhyw ddatblygiad pellach cadarnhaol o'r Swyddfa Addysg. Mae Cyngor tref Gaiman eisoes yn dra chefnogol i addysg Gymraeg yn y dref. Rhydd y Cyngor adeilad cymwys yn ddi-dâl i'r Ysgol Feithrin a theimlai'r Maer mai cefnogi'r fenter honno ac ymestyn y dysgu i gynnwys plant oedran yr ysgol gynradd oedd y dull gorau i symud ymlaen. Drwy sefydlu cyfundrefn breifat sy'n rhedeg yn gyfochrog ag un y wladwriaeth y cais lleiafrifoedd eraill megis yr Almaenwyr a'r

Siapaneaid gynnal eu hiaith. Cynhelir y dosbarthiadau iaith tu allan i oriau statudol ysgol y wlad.

'Roedd Ysgol Gynradd Bryngwyn eisoes wedi cyflwyno prosiect i ddysgu'r Saesneg a'r Gymraeg yno yn y prynhawn. Wythnos yn ddiweddarach, gwrthodwyd y prosiect hwnnw heb unrhyw eglurhad. Ymwelwyd hefyd â swyddfa'r Ysgrifennydd Diwylliant. Roedd Snr. D.R. de Garcia yn gefnogol eto i unrhyw nodwedd Gymraeg a Chymeig a allai gyfoethogi neu dynnu sylw at Dalaith Chubut. Roedd canu corawl Cymraeg yn nodwedd a bleidiai yn fawr. Mynegwyd cefnogaeth i bopeth Cymraeg ac yn arbennig i weithgarwch y gwersi Cymraeg, ond unwaith eto nid oedd addewid glir o gymorth ymarferol. Yr unig gyfraniad cyllidol a gafwyd drwy'r swyddfa hon oedd caniatad i unrhyw un a oedd yn gyflogedig o dan y `Ministerio de Cultura y Educacion' i'w rhyddhau ar gyflog llawn tra ar `gwrs hyfforddiant' yn Llanbedr Pont Steffan!

Ymddengys fod yr Awdurdod Addysg yn ddigon pleidiol i addysg Gymraeg, ond nid yw'n barod i roi'r cyllid i hyrwyddo hynny o fewn y gyfundrefn wladol swyddogol. Bydd yn rhaid i ddatblygiadau pellach fod yn y sector gwirfoddol/preifat. Gallai hynny ddatblygu o'r Ysgol Feithrin o sicrhau bod yr adnoddau priodol a'r arbenigedd addysgol ar gael.

## 6. SEFYDLIADAU A ALLAI GEFNOGI ADDYSG GYMRAEG A HYRWYDDO DEFNYDD PELLACH OHONI YN Y GYMDEITHAS

### 6.1 Awdurdod Addysg

Cefnogaeth oddefol yn unig a geir ar hyn o bryd ond dichon y gallai'r darlun newid yn y dyfodol yn arbennig os bydd siaradwyr Afrikaans yn ne'r dalaith yn parhau â'u hymgyrch i gael gwersi o fewn y fframwaith addysgol daleithiol. Pe gellid dangos llwyddiant gweladwy, mesuradwy drwy gyfrwng yr Ysgol Feithrin a chyda hysbysebu effeithiol a marchnata gofalus ar ran trefnwyr y dosbarthiadau Cymraeg, mae'n bosibl y gellid dwyn pwysau ar yr Awdurdod i weithredu'n ymarferol.

### 6.2 Y Brifysgol

Cafwyd cyfarfod buddiol â Phennaeth yr Adran Lenyddiaeth a chynrychiolwyr o'r Uned Ymchwil Ieithyddol. 'Roeddynt yn awyddus iawn i sefydlu cwrs Celteg a fyddai'n rhoi sylw arbennig i'r Gymraeg. Byddai'n gwrs a ymgorfforai elfen gref o lenyddiaeth gymharol yn ogystal â deunydd cefndirol ac elfen ieithyddol. Bwriedid cynnal cyfarfod ar y dydd Mawrth dilynol i drafod y posibilrwydd. 'Roedd yn amlwg mai diffyg cyllid i sefydlu cwrs o'r fath oedd y broblem fwyaf. Cynhaliwyd cwrs agored ar hanes a diwylliant y Cymry yn yr Ariannin yn 1974 a 1976, ond nid oedd yn rhan greiddiol o gwricwlwm cyrsiau mewnol.

Ymddengys fod parodrwydd ac awydd i osod y Gymraeg yn faes academaidd yn y Brifysgol. Eisoes ymchwiliodd yr Uned Ymchwil Ieithyddol ym maes dwyieithrwydd Cymraeg/Sbaeneg ac y mae un aelod ifanc o'r staff a allai gynnal cyrsiau Cymraeg i ddechreuwyr. Bu hi ar gwrs Cymraeg dwys yn Llanbedr Pont Steffan yn 1993.

6.3 **Y Sector Gwirfoddol**

i) **Cymdeithas Addysg a Diwylliant Camwy**

Hon yw'r Gymdeithas sydd eisoes yn darparu llety yn rhad ac am ddim i'r athro ar ymweliad. Y Gymdeithas hefyd sy'n talu am drydan, nwy a dwr yn ogystal â threthiant lleol. Y Gymdeithas sy'n gyfrifol am gynhyrchu a llun gopïo defnyddiau dysgu ar gyfer y dosbarthiadau Cymraeg, a hi yw cyd-lynydd y dosbarthiadau hyn. Y Gymdeithas sydd yn gyfrifol am Goleg Camwy, ac yno fel y nodwyd y dechreuwyd cwrs Cymraeg arloesol o fewn y cwricwlwm cenedlaethol. O'r Coleg y daw y prif gefnogaeth a'r symbyliad pennaf i'r holl weithgarwch addysgol Cymraeg. Bu'n gefn i'r Ysgol Feithrin a chyfrannodd yn ymarferol tuag at lwyddiant y fenter honno. Rhydd y Gymdeithas ystafelloedd yn ddi-dâl i gynnal dosbarthiadau Cymraeg. Byddai cynrychiolaeth o'r Gymdeithas yn gwbl angenrheidiol ar unrhyw bwyllgor a sefydlid i weithredu prosiect datblygu'r Gymraeg. Y person allweddol yn y cyswllt hwn yw prifathrawes yr ysgol - Sra. Luned Fychan Roberts de Gonzalez.

Cefnogir eisteddfodau lleol gan y Gymdeithas ac yn wir cynhelir eisteddfod flynyddol yn y Coleg. Mae'r sefydliad yn ddylanwad cadarnhaol o du'r Gymraeg. Lluniwyd `Pwyllgor Llanbedr' dan adain y Gymdeithas i godi arian ar gyfer anfon pobl ieuainc ar gwrs deufis yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Y Pwyllgor hwn hefyd sy'n dewis y rhai a anfonir. Yn 1995 talwyd costau teithio llawn pedwar myfyriwr. Cymdeithas Cymry/Ariannin a dalod y ffioedd dysgu, a'r myfyrwyr eu hunain a oedd yn gyfrifol am gostau cynhaliaeth. Codir yr arian drwy wahanol fathau o ymgyrchoedd. Gallai hyn fod yn gryn dreth ar y Gymdeithas gan ei bod yn ofynnol iddi hefyd godi arian yn gyson tuag at gynnal a gwella adeiladau'r Coleg.

Gellir dibynnu ar y Gymdeithas a'r Coleg fel un o'r prif sefydliadau a all gefnogi datblygu'r Gymraeg yn Nyffryn Camwy.

ii) **Cymdeithas Dewi Sant, Trelew**

Mae hon yn gymdeithas a fu'n dra dylanwadol yn y gorffennol ac yn bur egnïol yn y maes diwylliannol. Mae'n berchen ar neuadd hwylus ynghanol Trelew, adeilad a fu'n fan cyfarfod cyfleus i weithgareddau Cymreig yn y dref. Yno y cynhelir dathliadau Gwyl Ddewi (Mawrth) a Gwyl y Glaniad (Gorffennaf) ac yno yr arferid cynnal cyrddau llenyddol ac eisteddfodau. Mae dau gôr - côr meibion a chôr cymysg a dau barti dawnsio gwerin yn gysylltiedig â'r Gymdeithas. Maent yn bur weithgar yn casglu hen luniau ac yn recordio atgofion hen bobl yn ogystal â chasglu hen ganeuon a rhigymau. Rhoddant gyfraniad at gostau teithio'r athro ar ymweliad a rhoddant rodd i gronfa `Pwyllgor Llanbed'. Maent yn amlwg yn eu cefnogaeth i'r eisteddfodau i gyd. Cynhelir nosweithiau llawen unwaith y mis. Disgwylir i'r Gymdeithas gefnogi'r Ysgol Feithrin.

Teimlir bod cryn egni a gweledigaeth o fewn y Gymdeithas, a bydd ei chydweithrediad a'i chefnogaeth yn elfen bwysig yn y dyfodol. Hyd yma bu pwyslais y Gymdeithas yn fwy ar y diwylliannol a'r hanesyddol ond mae hynny'n dra phwysig yn ffurfiant delwedd gadarnhaol o'r Gymraeg.

iii) **Undeb Eglwysi Rhyddion y Wladfa**

Bu cyfraniad yr Eglwysi yn y gorffennol i ffyniant y Gymraeg ac i addysg Gymraeg yn gwbl amhrisiadwy. Nid yw ansawdd y gefnogaeth wedi pylu, er bod cylch dylanwad y capel wedi lleihau cryn dipyn. O'r tri chapel ar ddeg sydd yn Nyffryn Camwy, mewn dau yn unig y cynhelir oedfaon cyson bob Sul, unwaith y mis mewn pump, ac oedfaon achlysurol yn rhai o'r lleill. Rhoddwyd cefnogaeth i'r Ysgolion Meithrin a'r tebyg yw y bydd modd sefydlu dosbarthiadau Cymraeg yn Ysgolion Sul Tabernacl Trelew a Bethel Gaiman yn y dyfodol agos. Byddai hynny'n llesol iawn oherwydd ychwanegai at y sefyllfaoedd lle gallai'r plant gyfathrebu yn y Gymraeg.

iv) **Yr Eisteddfod**

Atgyfodwyd yr Eisteddfod ar ôl bwrlwm y canmlwyddiant yn 1965 ac aeth o nerth i nerth. Mae'n sefydliad dwyieithog a cheir trawstoriad o gystadlaethau yn y ddwy iaith. Daw corau o bellteroedd o fewn y wlad i gystadlu. Ar un ystyr gweithreda fel ffenestr i arddangos y diwylliant Cymraeg i weddill y boblogaeth. Cynyddodd y costau yn sylweddol a phrif waith y pwyllgor ar hyn o bryd yw codi'r cyllid angenrheidiol. Cyflogir trefnydd rhan amser er bod galw am un llawn amser. Mae'r sefydliad hwn yn hynod o bwysig gan nad yw'n bosibl i iaith ffynnu mewn gwagle diwylliannol. Byddai Eisteddfod wedi ei hatgyfnerthu yn gallu bod yn llais dylanwadol dros yr iaith yn y gymuned.

v) **Cymdeithasau llenyddol/cymdeithasol - Cymdeithas Lenyddol Trelew/Gaiman, Merched y Wawr, Cymdeithas y Bwthyn**

Mae i'r rhain le allweddol yng nghymdeithaseg y Gymraeg gan eu bod, er yn wahanol iawn i'w gilydd yn gyfryngau i greu achlysuron cymdeithasol dilys lle gall siaradwyr y Gymraeg gyfathrachu â'i gilydd yn y Gymraeg.

6.4 **Sector Breifat**

i) **Y Cyfryngau**

Bu rhaglen radio Gymraeg (cerddoriaeth) ar radio Trelew ers llawer o flynyddoedd ond hyd yn hyn ni chafwyd newid yn y patrwm nac unrhyw ddatblygiad pellach. Yn ddiweddar dechreuwyd rhaglen Gymraeg bob bore Sul ar Radio Trefelin. Cynhwysir llawer o eitemau hefyd ar Orsaf Deledu Trefelin. Gellid gwneud â rhagor o ddefnyddiau Cymraeg, yn arbennig cerddoriaeth a'r bwriad fyddai datblygu'r rhaglen radio yn un ysgafn ei natur ond a gynhwysai lawer o newyddion lleol. Gallai ddatblygu yn fath o fforwm i'r gymdeithas Gymraeg. Roedd perchennog yr Orsaf Deledu hefyd yn awyddus i gael rhaglen Gymraeg wythnosol ond byddai'n rhaid sefydlu cysylltiadau ag S4C ac ag Archifau'r BBC er mwyn

sicrhau rhaglenni a fyddai at ddant siaradwyr y Gymraeg yn Nhrefelin. Mae hwn yn ddatblygiad newydd ac o sylweddoli'r weledigaeth gallai hybu'r iaith yng ngodre'r Andes.

ii) **Y Dravod**

Bu i'r *Dravod* le hynod o bwysig ym mywyd Cymraeg a Chymreig y dalaith oddi ar y dyddiau cynnar. Cynhwysai newyddion lleol a thameidiau am Gymru. Trafodai bynciau llosg y dydd a bu'n llwyfan i ddadleuon brwd ar sawl achlysur. Ynddo cyhoeddid cynhyrchion y cyrddau llenyddol a'r eisteddfodau ac yr oedd yn gyfrwng i ddod â'r iaith lenyddol o fewn cyrraedd cylch eang na chawsant addysg ffurfiol yn y Gymraeg.

Mrs. Irma Hughes de Jones fu'r golygydd oddi ar 1953. Mae hi'n fardd cadeiriog yn y Wladfa ac yn llenor tan gamp. Enillodd nifer o wobrwyon mewn cystadlaethau yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghymru. Ni ellid cael person mwy dawnus i olygu'r papur. Yn anffodus nid oes lleng o ysgrifenwyr sy'n abl nac yn barod i ysgwyddo'r baich gyda hi. Nid swydd golygydd yw ei hun hi, ond newyddiadurwraig, cysodydd, gwerthwraig a thrysorydd, y cyfan yn un. Nid yw'r papur yn ymddangos mor rheolaidd ag y byddai er bod Mrs. Jones yn derbyn peth cymorth o goffrau Cymdeithas Dewi Sant. Prif wendid y sefyllfa bresennol yw mai `band undyn' yw'r *Dravod* o orfodaeth. Gallai dosbarthiadau ysgrifennu yn sicr gynhyrchu talent newydd a byddai sefydlu pwyllgor o gynorthwywyr yn gefn mawr i'r golygydd. Mae sicrhau dyfodol i'r *Dravod* yn holl bwysig oherwydd iaith gyfyngedig iawn yw'r un nad yw'n gyfrwng darllen ac ysgrifennu.

## 7. STRATEGAETH AR GYFER CEFNOGAETH BELLACH

Ar hyn o bryd cefnogi'r mentrau gwirfoddol yw'r unig lwybr rhesymol a rhesymegol i'w droedio. Y mentrau yn y sector wirfoddol oedd achos cychwyn yr adfywiad mewn diddordeb yn y Gymraeg. Parhad y dosbarthiadau Cymraeg sy'n gyfrifol am roi delwedd fwy derbyniol i'r Gymraeg, a bydd y gweithgarwch a'r holl frwdfrydedd a grewyd i gyd yn ofer oni ellir sicrhau parhad a datblygiad ar y fframwaith gyfredol. Y ffactor ganolog yn y fframwaith yw'r athro ar ymweliad o Gymru. Egni, dycnwch, dyfalbarhad ac esiampl cadwyn o athrawon dros gyfnod o chwe blynedd a roes fodolaeth i'r hyn a ystyriaf yn wyrth yn Nyffryn Camwy. Yn 1974 ni allwn fod wedi rhagweld y fath fwrlwm. Tybed nad rhyw ffenomen `seren wib' yw'r cyfan ac mai byrhoedlog fydd parhad y brwdfrydedd? Dyna'n sicr fydd y sefyllfa oni cheir dilyniant ac atgyfnerthu buan.

### 7.1 Athrawon

Yn ystod y chwe blynedd cafwyd cynnydd syfrdanol yn y galw am ddosbarthiadau Cymraeg a hyd yn hyn nid yw'r brig wedi ei gyrraedd. Un pwynt calonogol yw fod y fframwaith wedi dechrau cynhyrchu athrawon brodorol - pump hyd yn hyn. Mae pedwar o'r pump yn rhai o'r Gaiman sef Gabriel Restucha, Mary Zampini, Carlos Blasetti a Monica Jones a'r pumed yn gynnyrch dosbarth Cymraeg Rawson sef Nansi Jones. Serch hynny fel y dengys Tablau III a IV, V a VI (t.14-17) yn y dosbarthiadau Cymraeg gwirfoddol di-dâl, yr athro ar ymweliad sy'n dwyn pen tryma'r baich dysgu. Ef yn unig sy'n dysgu'r siaradwyr rhugl ac ef eto sy'n bennaf gyfrifol am ddysgu'r oedolion boed y rhai hynny'n siaradwyr rhugl, yn ddysgwyr neu yn ddechreuwyr. Ymddengys fod Gabriel Restucha a Carlos Blasetti yn fwy abl i ddysgu pobl ieuainc a phlant, - rhai sy'n ddechreuwyr neu ar eu hail flwyddyn.

Mae'n gwbl amlwg bod angen dilyniant yn y ddarpariaeth sy'n rhoi gwasanaeth athro ar ymweliad gan nad yw'r athrawon brodol eto yn barod nac yn ddigon hyderus i ddysgu pob oedran a phob safon.

O fewn y drefn bresennol cyferfydd y dosbarthiadau unwaith yr wythnos. Gwyddom bellach fod dysgu dwys, dros gyfnod byrrach o amser, yn llawer mwy effeithiol. Serch hynny ni fyddai'n bosibl amlhau dosbarthiadau oherwydd na allai un athro ar ymweliad byth gyflawni'r fath dasg. Awgrymir felly mai anfon **tri athro ar ymweliad** bob blwyddyn am dair blynedd fyddai'r ateb gorau i'r angen. Dylid lleoli dau yn y dyffryn ac anfon y trydydd i'r Andes i hybu'r gwaith yn y fan honno.

Gellid disgwyl i'r athrawon gyflawni amrywiaeth o dasgau na ellir eu cwmpasu ar hyn o bryd.

i) Dysgu dwysach mewn ardal llai gwasgarog.

ii) Posibilrwydd o drefnu cyrsiau dwys deuddydd a rhai penwythnos ar gyfer disgyblion o wahanol lefelau, a cheisio cymathu'r dysgwyr i rwydweithiau cymdeithasol Cymraeg.

iii) Posibilrwydd i'r athro/athrawon drefnu cyrsiau ar gyfer athrawon a darpar-athrawon brodorol.

iv) Ystyried cyrsiau gloywi iaith a chyrsiau cefndir a llenyddiaeth i ddysgwyr rhugl.

v) Dylai un o'r athrawon fod â phrofiad o ddysgu plant ysgol gynradd er mwyn gallu cynorthwyo'n adeiladol yn yr Ysgol Feithrin ac yn yr uned ôl feithrin. Fel y dengys Tabl VII (t.18), mae'r ddarpariaeth yn Ysgol Feithrin y Gaiman yn gwbl anghyfartal ar hyn o bryd. Byddai cael gwasanaeth person a allai hyfforddi athrawon a gweinyddesau meithrin yn gaffaeliad mawr. Mae'n rhaid cofio hefyd y bydd anghenion Ysgol Feithrin Trelew yn rhwym o gynyddu o fewn y tair blynedd nesaf.

Felly gwelaf swyddogaeth driphlyg i'r athrawon ar ymweliad:

- dysgu yn y dosbarth ar bob lefel
- hyfforddi rhai o'r Wladfa i gyflawni'r gwaith yn effeithiol eu hunain gan leihau'r orddibyniaeth bresennol ar wasanaeth athro/athrawes o Gymru.
- hybu llythrennedd yn y Gymraeg ac ennyn diddordeb creadigol a llenyddol, yn y rhai sydd eisoes yn rhugl ar lafar.

Yn yr Andes byddai'n rhaid penderfynu ar gynllun gwaith manwl a thargedu realistig. Byddai sefydlu Pwyllgor neu Fwrdd Addysg Gymraeg yn y Wladfa i lywio'r gwaith yn holl bwysig. Gallai'r gwahanol fudiadau lleol megis, Cymdeithas Addysg a Diwylliant y Camwy, Cymdeithas Dewi Sant a Chymdeithas Gymraeg Trefelin/Esquel enwebu aelodau ar y Pwyllgor Gwaith ond byddai'n rhaid iddynt wrth arweiniad a chefnogaeth o'r pen hwn. Yn ddelfrydol dylid trefnu arolygaeth flynyddol ynghyd â gwasanaeth cynghori yn ôl y galw i sicrhau bod amcanion y prosiect yn cael eu sylweddoli o fewn yr amserlen. Ni ddylai'r fframwaith athrawon ar ymweliad ddibynnu ar sicrhau gwasanaeth personau sydd wedi ymddeol.

## 7.2 Deunydd Dysgu

Hyd yn hyn defnyddiwyd gwahanol fathau o gyrsiau gan y gwahanol athrawon. 'Nawr bydd yn rhaid datblygu cwrs strwythuredig o lefel dechreuwyr hyd at lefel y dysgwyr rhugl. Nid oes unrhyw gwrs parod ar gael gan y byddai'n rhaid i hwn fod wedi ei anelu at rai sydd â'r Sbaeneg yn famiaith iddynt. Byddai'n rhaid datblygu cyrsiau graddedig a fyddai'n rhoi dilyniant o un ris i'r nesaf o fewn y cwricwlwm.

Dechreuodd Mr. Gwilym Roberts ddatblygu cwrs a allai fod yn gynsail ardderchog i gwrs cyfannol (integrated). Bu Gabriel Restucha hefyd wrthi'n cydweithio â Mr. Gwilym Roberts pan fu'n llunio cwricwlwm ar gyfer ei wersi Cymraeg yng Ngholeg Camwy. Byddai addasu

yr hyn sydd ar gael yng Nghymru, er enghraifft defnyddiau Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, Caerdydd, Cyrsiau Acen, neu ddefnyddiau'r Cyd-Bwyllgor Addysg yn dasg y gellid ymgymryd â hi yn y Wladfa gan un sy'n dysgu yno megis Gabriel Restucha.

### 7.3 Defnyddiau ar gyfer yr Uned ôl-feithrin

Drwy ddatblygu'r dosbarth ôl-feithrin yn uned a fydd yn rhoi addysg Gymraeg i blant rhwng 6 a 12 mlwydd oed, bydd yn rhaid ystyried strwythuro cwricwlwm addas. Byddai athrawes gynradd brofiadol ymhlith yr athrawon ar ymweliad yn gallu ateb y gofynion yn hynod o effeithiol.

### 7.4 Maes llafur gloywi iaith ac ymestyn iaith

Dylid amcanu treulio llawer mwy o amser yn gwella ansawdd iaith y siaradwyr rhugl, yn ysgrifenedig yn ogystal ag yn llafar. Byddai datblygu maes llafur a nodau cyrhaeddiad am gyfnod o bum mlynedd yn gam pendant ymlaen.

### 7.5 Fframwaith asesu ac arholi

Dylid llunio profion llafar addas ar gyfer pob lefel a fydd yn mesur cyrhaeddiad pob disgybl. Byddai cymhwyster ar ffurf tystysgrif yn sicr yn nod i ymgyrraedd ato.

### 7.6 Hyfforddiant Pellach i ddarpar-athrawon y Gymraeg

Dylid cefnogi hyfforddiant pellach yng Nghymru i'r athrawon brodorol. Byddai'n ofynnol teilwra cwrs hyfforddiant yn ôl anghenion yr unigolyn. Gellid elwa o dreulio tymor yn dilyn cwrs ar lenyddiaeth Gymraeg ynghyd â threulio amser estynedig mewn ysgolion Cymraeg. Byddai cyfnod o ymgyfarwyddo â gwaith ieuenctid yr Urdd a gwaith y Mudiad Ysgolion Meithrin yn dra buddiol. Gallai profiad o weithio ym maes addysg oedolion fod yn hynod o addas hefyd. Byddai cymorth Cymdeithas Cymru/Arannin yn dra phwysig yn y cyswllt hwn. Awgrymir cefnogi tri bob blwyddyn yn ystod cyfnod y prosiect. Y Bwrdd Addysg Gymraeg lleol a ddylai enwebu ymgeiswyr am yr ysgoloriaethau gan amlinellu'r math o hyfforddiant a

fyddai'n briodol er budd yr ungiolyn a'r gymdeithas yn ddiweddarach. Mae'r fath symudoledd yn gwbl angenrheidiol. Dylid ariannu hyn drwy'r prosiect.

7.7 **Symudoledd myfyrwyr**

Dylid parhau â'r drefn o anfon 6 myfyriwr addawol i fynychu Cwrs Cymraeg dwys am ddeufis (Gorffennaf/Awst) yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Yn y gorffennol profodd y cwrs hwn ei werth. Caiff y myfyrwyr gyfle i ymgymysgu â dysgwyr eraill o Gymru ac o wledydd Ewrop. Cânt gyfle i fyw am gyfnod estynedig mewn cymuned lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw a pherthnasol. Cafodd y profiad effeithiau llesol iawn ar ymagweddiad a brwdfrydedd y rhai a fu yno yn ogystal â gwella eu hiaith yn sylweddol. Dychwelodd pob un a fu ar y cwrs hwn yn dra hyderus a chwbl rugl.

Mynnir bod cefnogi'r cwrs hwn yn fuddsoddiad doeth iawn.

Pe talai'r prosiect gyfran dda o'r costau gellid pwyso ar `Bwyllgor Llanbedr' yn y Dyffryn a Chymdeithas Cymru/Ariannin i ymgymryd â hybu a chynnal dau ddatblygiad pwysig arall, sef 7.8 a 7.9.

7.8 ***Y Dravod***

Mynegwyd eisoes bod sefyllfa'r *Dravod* yn bur ansicr. Mae angen cymorth buan a sylweddol ar Mrs. Irma Hughes de Jones. Gwnaeth waith gwych am flynyddoedd ar adnoddau prin. Mae'r angen yn driphlyg.

i) Defnyddiau diddorol a pherthnasol i'w cyhoeddi gan gyfrannwyr cyson.

ii) Cefnogaeth ariannol.

iii) Gwybodaeth a hyfforddiant yn y dullau diweddaraf o gyhoeddi papur lleol a'i farchnata'n effeithiol.

Gan na fyddai galw am gyfraniad ariannol blynyddol gan Gymdeithas Cymru/Ariannin tuag at gostau athro nac at gostau Llanbedr, tybed na ellid pwyso ar y Gymdeithas i ymgymryd â

chefnogi *Prosiect y Dravod*? Bu'r Gymdeithas yn hynod o gefnogol yn y gorffennol i gyhoeddi cynhyrchion cystadlaethau eisteddfodol. Mae hefyd yn ymwybodol iawn o sefyllfa fregus y *Dravod*, oherwydd iddi yn y gorffennol fod yn gyfrifol am anfon cylchlythyr newyddion o dro i dro i'r Wladfa. Byddai cymorth ymarferol aelodau'r Gymdeithas yn gwbl allweddol ped anfonid unigolyn o'r Wladfa i Gymru i ddysgu sgiliau newyddiaduraeth ac i elwa ar brofiad sylweddol y *Papurau Bro*. Gellid sianelu'r brwdfrydedd a'r cyllid sydd ar hyn o bryd ynghlwm wrth `bwyllgor Llanbedr' i `Brosiect y Dravod'. Byddai hefyd yn enghraifft o'r gymdeithas leol yn ymroi i gynnal un o'i sefydliadau pwysicaf. Dylid cyflwyno'r fath her i'r gymdeithas leol ac i Gymdeithas Cymru/Ariannin i fod yn rhan o'r prosiect arfaethedig.

### 7.9 Yr Eisteddfod

Fel 7.8 mae cwestiwn yr Eisteddfod yn fwy diwylliannol nac addysgol, ond wrth gwrs y cwlwm sy'n cydio'r ddwy elfen â'i gilydd yw iaith. Mae'r Eisteddfod fel y *Dravod* yn ffactor bwysig yn ffyniant y Gymraeg ym Mhatagonia. Os rhywbeth mae'n gyfrwng pwysicach gan ei bod yn cyffwrdd â thrawstoriad eang ac amrywiol o'r boblogaeth. Mae'n gyfrwng hynod o effeithiol i farchnata'r iaith yn llwyddiannus. Ar hyn o bryd y prif ofid yw gallu codi'r cyllid angenrheidiol yn flynyddol drwy ymdrechion gwirfoddol. Dangosodd y pwyllgor gryn ddyfeisgarwch drwy allu sicrhau cefnogaeth *Aerolineas Argentinas* ar gyfer cludiant un beirniad o Gymru i'r Eisteddfod bob blwyddyn.

Cyflogir trefnydd/ysgrifennydd rhan amser am ran o'r flwyddyn. **Byddai gallu cyflogi trefnydd llawn amser, wedi ei hyfforddi mewn dulliau codi arian yn gam mawr ymlaen.**

Gellid unwaith eto geisio nawdd Cymdeithas Cymru Ariannin i gynllun a fyddai'n caniatau i'r trefnydd/ysgrifennydd dreulio cyfnod yng Nghymru yn arsylwi ar ddulliau gweithio Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.

## 7.10 Cymdeithas Cymru/Ariannin

Mae rhan Cymdeithas Cymru/Ariannin yn natblygiad addysg Gymraeg yn y Wladfa yn gwbl allweddol, ac yr wyf o'r farn y byddai cydweithrediad, cefnogaeth a phrofiad helaeth y Gymdeithas yn hwyluso gweinyddiad unrhyw brosiect cefnogaeth i'r Wladfa.

## ATODIAD I

### DOSBARTHIADAU CYMRAEG

**Gwilym Roberts:**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Llun: | Capel Tabernacl, Trelew | |
| | 1.00 p.m. | Dechreuwyr Uned 2 |
| | 2.00 p.m. | Dechreuwyr |
| | 3.00 p.m. | Ail Flwyddyn |
| | 4.15 p.m. | Cwrs Uwch: Gloywi Iaith (1½ awr) |
| | 6.00 p.m. | Dechreuwyr |
| | 7.00 p.m. | Trydedd Flwyddyn |
| Dydd Mawrth: | Escuela No. Cuatro, Rawson | |
| | 5.30 p.m. | Dechreuwyr |
| | 6.30 p.m. | Cwrs Uwch: Gloywi Iaith |
| | Coleg Camwy, Gaiman | |
| | 9.00 p.m. | Ail a'r drydedd Flwyddyn |
| Dydd Mercher: | Colego W. Morris, Dolafon | |
| | 2.40 p.m. | Cwrs Uwch: Gloywi Iaith (1½ awr) |
| | 4.15 p.m. | Ail a'r Drydydd Flwyddyn |
| | 5.30 p.m. | Dechreuwyr - plant |
| | Colego Camwy, Gaiman | |
| | 8.00 p.m. | Dechreuwyr - Oedolion |
| Dydd Iau: | Casa Toschke, Porth Madryn | |
| | 1.45 p.m. | Cwrs Uwch: Gloywi Iaith (1½ awr) |
| | 3.15 p.m. | Dechreuwyr |
| | 4.30 p.m. | Ail a'r Drydedd Flwyddyn |
| | Colego Camwy, Gaiman | |
| | 9.00 p.m. | Cwrs Uwch: Gloywi Iaith (1½ awr) |
| Dydd Gwener: | Colego Camwy, Gaiman | |
| | 2.45 p.m. | Ail Flwyddyn |
| | 6.00 p.m. | Gwaith llafar) |
| | 7.00 p.m. | Gwaith llafar)Disgyblion Gradd 4 a 5 |
| | 8.00 p.m. | Gwaith llafar) Coleg Camwy |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm dosbarthiadau | = | 21 |
| Cyfanrif disgyblion | = | 143 |

**Gabriel Restucha**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Llun: | Colegio Camwy, Gaiman | |
| | 3.30 p.m. | Plant - 12-13 blwydd oed |
| | 8.00 p.m. | Dechreuwyr: Pobl ieuainc |
| Dydd Mercher: | *9.30 a.m. | Dosbarth 4 Coleg Camwy |
| | *10.30 a.m. | Dosbarth 4 Coleg Camwy |
| | *11.30 a.m. | Dosbarth 5 Coleg Camwy |
| | *12.30 a.m. | Dosbarth 5 Coleg Camwy |
| | 7.30 p.m. | Ail Flwyddyn: Pobl ieuainc |

Dydd Gwener: 7.30 p.m. Dechreuwyr: Pobl ieuainc

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm dosbarthiadau | = | 8 (4 o fewn cwricwlwm Camwy) |
| Cyfanrif disgyblion | = | 94 (32 o fewn cwricwlwm Camwy) |

**Carlos Blasetti**

Dydd Mawrth: 5.00 p.m. Dechreuwyr: Uned 2
6.00 p.m. Dechreuwyr

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm dosbarthiadau | = | 2 |
| Cyfanrif disgyblion | = | 16 |

**Ysgol Feithrin, Gaiman**

5 bore yr wythnos - Blwyddyn I Meithrin
3 prynhawn yr wythnos - Blwyddyn II
1 bore, 1 prynhawn - Dosbarth ôl Feithrin

Oriau = 20 Disgyblion = 28

**Ysgol Feithfin, Trelew**

5. - 7.00 p.m. Dydd Llun, Mercher, Gwener

Oriau = 6 Disgyblion = 12

**Mary Green de Borda**

Dydd Mawrth: Trefelin

7.00 p.m. Pobl ieuainc - dechreuwyr

Oriau = 1½ Disgyblion = 20

## ATODIAD II

**Defnydd Presennol o'r Gymraeg: Holiadur byr**

1. 5 mlynedd diwethaf. Lleihau neu ymestyn?
2. Ym mha ffordd?
3. Paham?
4. Prif feysydd y Gymraeg?
5. Ydy'r sefyllfa'n fwy gobeithiol?
6. Pam?
7. Beth ydy'r cam nesaf?
8. Pa genhedlaeth sy'n cyfrannu fwyaf at y newid?
9. Sut mae cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg?
10. Beth am ddarllen/ysgrifennu?
11. Ym mha sefyllfaoedd y byddai'r Gymraeg yn fwyaf tebygol?

    cartref
    capel
    siopau
    banc
    gwaith
    adloniant
    côr

## ATODIAD III

**Sefydliadau ac Unigolion yr ymwelwyd â hwy:**

1. Cymdeithas Addysg a Diwylliant y Camwy.
2. Undeb Eglwysi Rhyddion y Wladfa
3. Cymdeithas Dewi Sant, Trelew - Y Pwyllgor Gwaith.
4. Pwyllgor Eisteddfod y Wladfa - Is-bwyllgor
5. Merched y Wawr, Dolafon.
6. Y Gymdeithas Lenyddol Gymraeg, Trelew.
7. Aelodau dosbarthiadau Cymraeg yng Ngaiman, Trelew, Dolafon, Rawson, Porth Madryn a Threfelin.
8. Cymdeithas y Bwthyn, Gaiman.
9. Yr Ysgol Feithrin a'r Uned ôl Feithrin, Gaiman.
10. Yr Ysgol Feithrin, Trelew.
11. Yr Ysgol Gân a'r Côr, Gaiman.
12. Y Gyfadran Lenyddiaeth, Prifysgol Patagonia yn Nhrelew.
13. Cyfarwyddwr Addysg Talaith Chubut, Rawson.
14. Cyfarwyddwr Adran Ddiwylliant y Dalaith, Rawson.
15. Maer tref Gaiman.
16. Cynrychiolwyr y Gymdeithas Gymraeg yn Nhrefelin ac Esquel
17. Rhestr fer o'r unigolion y siaradwyd â hwy:

    Mrs. Elena Arnold
    Mr. a Mrs. Oscar Arnold
    Carlos Blasetti
    Juan Davies
    Miss Delma Williams
    Miss Tegai Roberts
    Miss Alwina Thomas
    Miss E. Jones
    Mrs. S.McDonald

Mrs. L.Henry
Miss R.Henry
Mrs. Monica Jones
Mrs. Delyth Jones
Mr. Gwyn Jones
Mr. a Mrs. Homer Hughes
Mr. a Mrs. I.Williams
Mr. E.Williams
Mr. a Mrs. D.Thomas
Miss Nancy Jones
Mrs. Glenda Thomas
Mr. a Mrs. B.Hughes
Mr. Cludwyn ap Aeron Jones
Mr. a Mrs. D.M.Jones
Sr. a Sra. G.Lecesse
Mr. a Mrs. D.Drake
Mrs. M.Ellis
Sr. a Sra. Zampini
Mrs. Mary Zampini
Gabriel Restucha
Herbert Jones
Luned Fychan Roberts de Gonzalez
Miss A. Ritchie
Mr. Archie Griffiths
Miss Mair Davies
Delia Evans
Gwalia Evans
Mrs. Irma Hughes de Jones
Mr. G.Williams
Mrs. Mariwan
Mrs. B. MacBurney
Mr. a Mrs. G.Borda
Mr. a Mrs. A.Griffiths
Mrs. Uriena Lewis
Mrs. Alwen Green
Mr. a Mrs. Iolo Green
Miss Ann Griffiths
Miss M.Griffiths
Mr. a Mrs. G.Griffiths
Mrs. A. Hughes
Mr. a Mrs. Dennis Jones
Mr. M.Jones
Mr. a Mrs. Hector Evans